

11.03.21

GWYBODAETH BWYSIG I BAWB

Wrth i ni edrych ymlaen i groesawu pawb yn ôl i'r ysgol o ddydd Llun y 15fed o Fawrth ymlaen, dyma wybodaeth allweddol i bob rhiant a gofalwr a fydd yn gyfrifol am ddod a phlant a chasglu plant o safle'r ysgol. Er mwyn hwyluso iechyd a diogelwch pob un sydd yn ymwneud a chymuned yr ysgol, yn blant, rhieni a staff, rydym yn gofyn i bawb sicrhau fod y canlynol yn cael ei dilyn.

A fydddech cystal â gwneud pob ymdrech i gyrraedd yr ysgol / casglu'r plentyn o'r ysgol yn brydlon ac ar amser.
NI DDYLID CYRRAEDD YR YSGOL YN Y BORE NAC YN Y PRYNHAWN DIM MWY NA 5 MUNUD CYN YR AMSER CYCHWYN / GORFFEN AR GYFER EICH PLENTYN.

Dylid ymadael a'r buarth / maes parcio / safle'r ysgol yn ddiogel ac yn brydlon ar ôl gollwng y plentyn yn yr ysgol neu ar ôl casglu o'r ysgol ddiwedd y pnaun. Os ydych o fewn pellter cerdded o'r ysgol, byddai osgoi gollwng i ffwrdd/casglu gyda car yn hwyluso trefniadau yn fawr iawn

BLWYDDYN	CYCHWYN	GORFFEN
Meithrin	9.00 Ni ddylid cyrraedd cyn 8.55	11.30 Ni ddylid cyrraedd cyn 11.25
Derbyn/Blwyddyn 1 & 2	9.15 Ni ddylid cyrraedd cyn 9.10	2.45 Ni ddylid cyrraedd cyn 2.40
Blwyddyn 3 / 4 / 5 / 6	8.55 Ni ddylid cyrraedd cyn 8.50	3.00 Ni ddylid cyrraedd cyn 2.55

Dim ond **UN** oedolyn/rhiant a ddylai ddod i gasglu'r plentyn o'r buarth.

Gwneud pob ymdrech posib i osgoi casglu'r plentyn o dderbynfa'r ysgol cyn yr amseroedd a nodwyd. Bydd hyn yn lleihau lefel risg o ran gweithdrefnau iechyd a diogelwch yr ysgol ac yn osgoi symudiad di-angen disgyblion a staff o amgylch yr adeilad. Bydd hefyd yn osgoi amharu ar wersi wrth i ddisgyblion orfod ymadael yng nghanol gwersi.

Dylai pob rhiant/ofalwr wisgo mwgwd /gorchudd wyneb pan ar safle'r ysgol.

Gofynnwn i bawb ddilyn y llwybr **un ffordd** wrth ymadael a'r buarth. Dylai fod eich plentyn yn aros gyda chi ar ôl cael ei ryddhau gan yr athro/awes, gan osgoi mynd i chwarae efo plant eraill, yn arbennig plant o swigod grwpiau oedran gwahanol.

Gofynnir i bawb barchu rheolau ymbellhau cymdeithasol, gan gadw pellter diogel oddi wrth eraill wrth gasglu plant.

A fydddech cystal â sicrhau fod pob oedolyn, boed yn aelod o'r teulu neu yn ofalwr yn ymwybodol o'r wybodaeth uchod.

Er mwyn iechyd a diogelwch pob un sydd yn rhan o gymuned ein hysgol, rydym yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad pawb gyda'r materion uchod.

Diolch,

Rhodri Jones
Pennaeth